Powys NEWYDDION | NEWS

# Cabinet i ystyried adroddiad ymgynghori ar gampws Cradoc

**12 Chwefror 2026**

Gallai campws ysgol gynradd yn ne Powys gau os bydd argymhelliad i'r Cabinet yn cael ei gymeradwyo, meddai'r cyngor sir.

Mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu cau campws Cradoc o Ysgol Golwg Pen y Fan ac fe gynhaliodd ymgynghoriad ar y cynnig rhwng mis Tachwedd a Rhagfyr 2025. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan y Cabinet ddydd Mawrth, 24 Chwefror.

Bydd gofyn i'r Cabinet hefyd barhau â'r broses o gau campws Cradoc.

Os rhoddir sêl bendith, bydd y cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol yn cynnig y newid yn ffurfiol. Yna byddai'n ofynnol ystyried adroddiad arall i gwblhau'r broses.

Agorodd Ysgol Golwg Pen y Fan ym mis Medi 2024 drwy ddod â thair ysgol at ei gilydd o dan un corff llywodraethu. Ar hyn o bryd mae'r ysgol wedi'i gwasgaru ar draws tri safle yn Aberhonddu a Chradoc, cyn iddi symud i ysgol newydd sbon, bwrpasol ar hen safle Ysgol Uwchradd Aberhonddu, wedi'i chynllunio i ddod â phawb at ei gilydd o dan yr un to.

Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion wedi gostwng yn sylweddol ar

# Cabinet to consider Cradoc campus consultation report

**12 February 2026**

A campus of a south Powys primary school could close if a recommendation to Cabinet is approved, the county council has said.

Powys County Council is proposing to close the Cradoc campus of Ysgol Golwg Pen y Fan and carried out a consultation on the proposal between November and December 2025. The findings of the consultation will be considered by Cabinet on Tuesday, February 24.

Cabinet will also be asked to continue with the process to close the Cradoc campus.

If given the go-ahead, the council will publish a statutory notice formally proposing the change. It would then be required to consider another report to conclude the process.

Ysgol Golwg Pen y Fan opened in September 2024 by bringing together three schools under one governing body. The school is currently spread across three sites in Brecon and Cradoc, before it moves to a brand-new, purpose-built school on the former Brecon High School site, designed to bring everyone together under one roof.

However, pupil numbers have fallen significantly at the Cradoc campus and the council is proposing to close the

gampws Cradoc ac mae'r cyngor yn bwriadu cau'r campws cyn symud i'r adeilad newydd. Ar hyn o bryd mae 15 o ddisgyblion ar y campws, sef gostyngiad o’r 71 o ddisgyblion oedd yno ym mis Medi 2024.

Mae'r cynnig, sy'n cyd-fynd â Strategaeth y cyngor ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys, yn cael ei yrru gan ystod o fanteision addysgol a gweithredol.

Bydd cydgrynhoi safleoedd yn symleiddio arweinyddiaeth a rheolaeth, yn lleihau teithio ac ymdrechion dyblyg, ac yn cynhyrchu arbedion cost ar gynnal a chadw a gweinyddu. Bydd hefyd yn helpu i gydbwyso niferoedd disgyblion ar draws lleoliadau, lleihau lleoedd dros ben, a galluogi cynnig addysgol mwy cyson i bob dysgwr.

Dywedodd y Cynghorydd James Gibson-Watt, Aelod Cabinet dros Bowys sy'n Dysgu: "Rydym am ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad diweddar ar y cynnig hwn. Mae eich safbwyntiau wedi cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses hon.

"Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r dechrau gorau posibl i'n dysgwyr ac rydym yn credu y bydd ein Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg ym Mhowys yn cyflawni hyn.

"Fel rhan o'r strategaeth, mae angen i ni fynd i'r afael â'r gyfran uchel o ysgolion bach yn y sir, lleihau nifer y disgyblion a'r nifer uchel o leoedd dros ben.

"Bydd dod â staff a disgyblion at ei gilydd yn cefnogi cydweithredu cryfach, yn caniatáu grwpio mwy effeithiol yn ôl gallu neu angen, ac yn meithrin datblygiad cymdeithasol trwy

campus ahead of the move to the new building. Currently there are 15 pupils at the campus, dropping from 71 pupils since September 2024.

The proposal, which aligns to the council’s Strategy for Transforming Education in Powys, is driven by a range of educational and operational benefits.

Consolidating sites will simplify leadership and management, reduce travel and duplicated efforts, and generate cost savings on maintenance and administration. It will also help balance pupil numbers across locations, reduce surplus places, and enable a more consistent educational offer for all learners.

Cllr James Gibson-Watt, Cabinet Member for a Learning Powys, said: “We want to thank everyone who contributed to the recent consultation on this proposal. Your views have been carefully considered as part of this process.

“We are committed to securing the best possible start for our learners and we believe that our Strategy for Transforming Education in Powys will achieve this.

“As part of the strategy, we need to address the high proportion of small schools in the county, decreasing pupil numbers and the high number of surplus places.

“Bringing staff and pupils together will support stronger collaboration, allow for more effective grouping by ability or need, and foster social development through larger peer groups. It also makes it more viable to run clubs, sports teams, and enrichment activities.

“This recommendation has not been made lightly, but we believe this proposal provides greater certainty ahead of the

grwpiau cyfoedion mwy. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n fwy hyfyw i redeg clybiau, timau chwaraeon, a gweithgareddau cyfoethogi.

"Nid ar chwarae bach y cafodd yr argymhelliad hwn ei wneud, ond credwn fod y cynnig hwn yn rhoi mwy o sicrwydd cyn symud i adeilad pwrpasol newydd ar gyfer Ysgol Golwg Pen y Fan."

I ddarllen y Strategaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg 2020-2032 wedi'i diweddaru a manylion y Rhaglen Trawsnewid Addysg - Ton 2 (2022 - 2027) ewch i https://cy.powys.gov.uk/trawsnewidaddysg

DIWEDD

move to the new school building for Ysgol Golwg Pen y Fan."

To read the updated Strategy for Transforming Education 2020-2032 and details of the Transforming Education Programme - Wave 2 (2022 - 2027) visit https://en.powys.gov.uk/transformingeducation

ENDS

Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.

Powys CRYFACH tecach GWYRDDACH | STRONGER fairer GREENER